Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Archwiliad AHGTAEF i Weithredaeth ac Amhleidioldeb mewn Plismona**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn a byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran eu gweithredu. Trafodwyd ymateb yr Heddlu i'r archwiliad hwn yn y Bwrdd Plismona ar 24 Medi 2024. Fforwm yw hwn lle'r wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Digwyddodd y gwaith maes archwilio yn ystod yr wythnos yn cychwyn 27 Tachwedd 2023. Dewiswyd Heddlu Dyfed-Powys fel un o'r 12 heddlu a gafodd eu harchwilio fel rhan o'r gwaith maes ar gyfer Archwiliad Gweithredaeth ac Amhleidioldeb mewn Plismona AHEF. Parodd yr archwiliad wythnos.

Rwy'n croesawu'r argymhellion (1, 2, 3, 5, 6, 7, 8, 11, ac 14) i gyrff cenedlaethol ddiwygio dogfennau canllaw a phrosesau er mwyn sicrhau cysondeb o ran amhleidioldeb. Byddaf yn disgwyl canlyniad argymhellion cenedlaethol ochr yn ochr â'r Heddlu a byddaf yn sicrhau bod yr Heddlu'n ailymweld ac yn adolygu ar lefel leol unwaith y bydd yr argymhellion hyn wedi'u cwblhau.

Isod, nodaf fy syniadau a'r sicrwydd rwyf wedi'i dderbyn wrth y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhellion ar gyfer Heddluoedd o fewn yr adroddiad.

**Argymhelliad 4: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai Canolfan Gydlynu Genedlaethol yr Heddlu ddiwygio'r ffurflen adrodd ar-lein er mwyn mynnu bod heddluoedd yn darparu gwybodaeth am effeithiolrwydd y dull plismona a fabwysiadwyd yn y digwyddiad neu'r ymgyrch ac unrhyw honiadau sy'n ymwneud ag amhleidioldeb. Dylai pob heddlu sicrhau bod eu hadolygiadau dysgu ar ôl digwyddiad yn cynnwys tystiolaeth am effeithiolrwydd strategaethau comanderiaid o ran dull plismona ac amhleidioldeb. Dylai Canolfan Gydlynu Genedlaethol yr Heddlu gynnwys gwybodaeth am ddull plismona ac amhleidioldeb o ran y diweddariadau dysgu maen nhw'n anfon at heddluoedd.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod yr Heddlu eisoes yn cynnal adolygiadau dysgu ar ôl rheoli digwyddiad ar gyfer digwyddiadau a arweinir gan Gomanderiaid. Byddaf yn disgwyl y ffurflenni adrodd ar-lein diwygiedig ynghyd â'r heddlu

ac yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau eu bod nhw'n medru darparu'r wybodaeth ofynnol.

**Argymhelliad 9: O fewn chwe mis wedi i'r Coleg Plismona ddiweddaru ei ymgysylltu a'i gyfathrebu o ran arferion proffesiynol awdurdodedig, dylai heddluoedd ddiweddaru eu polisïau er mwyn adlewyrchu cyngor y Coleg Plismona ar gyfathrebu am faterion gwleidyddol a chynhennus.**

Mae'r Prif Gwnstabl wedi nodi'r adran Cyfathrebu Corfforaethol a Swyddog Polisi'r Heddlu fel yr aelodau staff priodol i adolygu canllawiau'r Coleg Plismona. Byddant yn diweddaru polisïau yn unol â hynny.

**Argymhelliad 10: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai prif gwnstabliaid roi cyfarwyddyd clir i'w gweithlu am wisgo ac arddangos cynrychiolaethau amlwg. Dylent sicrhau eu bod yn cyfathrebu polisïau o'r fath yn glir i'r gweithlu a'u bod yn gorfodi'r polisi. Dylai prif gwnstabliaid adolygu'r polisïau hyn yn rheolaidd er mwyn ymateb i achosion newydd sy'n codi. Dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu gefnogi prif gwnstabliaid i gyflawni ymagwedd gyson.**

Mae gweithdrefn Lifrai a Safonau Ymddygiad yr Heddlu'n cynnwys cyfarwyddyd mewn perthynas â gwisgo unrhyw beth sy'n debygol o ddwyn anfri ar yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys bathodynnau, logos neu fotiffau a allai achosi tramgwydd. Mae'r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau y gellir gwisgo bathodynnau/clytiau elusennol gyda chaniatâd y rheolwr llinell. Ni ddylent fod yn rhy fawr ac ni ddylent fod mewn man amlwg na chuddio arwyddlun yr heddlu. Yr wyf wedi derbyn sicrwydd bod polisïau'n cael eu hadolygu bob 12 i 36 mis, fodd bynnag, gall y perchennog polisi gynnal adolygiad yn gynt.

**Argymhelliad 12: Erbyn 31 Gorffennaf 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod y personél hynny sy'n gyfrifol am gwblhau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'u hyfforddi'n briodol i wneud hynny. Dylai prif gwnstabliaid hefyd sicrhau bod mesurau llywodraethu mewn grym ar gyfer gwella ansawdd yr asesiadau hyn a sicrhau eu bod nhw'n cael eu cwblhau pan fod angen.**

Mae perchnogion polisi'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Cynhwysir anogwyr o fewn y templed polisi a'r fframwaith polisi. Mae gan yr Adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg ganllawiau a chyflwyniad o ran sut i gwblhau Asesiad o'r Effaith

ar Gydraddoldeb yn ogystal â gwybodaeth ategol ar y fewnrwyd. Mae perchnogion polisi’n ymwybodol bod cymorth ar gael gan yr adran. Mae’r adran yn atgoffa staff drwy sesiynau dosbarth meistr am achosion eraill pan mae angen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae llywodraethu cadarn mewn grym i wirio a phrofi Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb sy’n cynnwys ymgynghori â grwpiau mewnol ac allanol. Mae’n galondid imi bod y Prif Gwnstabl wedi gofyn i’r Adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a’r Gymraeg gynnal hap sampl o Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn y sefydliad i brofi pa mor gadarn yw’r canllawiau hyn. Bydd hyn yn cael ei gynnal erbyn 31 Gorffennaf 2025.

**Argymhelliad 13: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai pob prif gwnstabl archwilio ei bolisïau sy’n cynnwys neu’n ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010. Dylent sicrhau bod proses effeithiol ar gyfer adolygu a diweddaru polisïau’n rheolaidd a bod ganddynt drefniadau llywodraethu priodol mewn grym.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod proses yn bodoli eisoes ar gyfer adolygu a diweddaru polisïau’n rheolaidd o fewn strwythur llywodraethu’r Heddlu, drwy Fyrddau Strategol. Yn ogystal, mae’r broses ar gyfer polisïau newydd neu bolisïau sydd wedi’u diwygio’n cynnwys ymgynghoriad gan staff allweddol cyn cyfieithu a chyhoeddi.

**Argymhelliad 15: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai’r Coleg Plismona gyhoeddi canllawiau newydd ar rôl grwpiau ymgynghorol allanol a’r defnydd ohonynt, gan ystyried canlyniadau ei ymchwil a gwaith perthnasol arall. Dylai hyn gynnwys canllawiau ar y canlynol o leiaf:**

- **cylch gorchwyl.**
- **dethol a rôl y cadeirydd.**
- **fetio neu fesurau diogelwch priodol eraill.**
- **recriwtio, dethol a daliadaeth aelodau.**
- **gwobrwyo, tâl a threuliau.**
- **hyfforddiant.**

Cytunwyd y byddai fy swyddfa’n adolygu’r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Byddaf yn sicrhau y bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y pwyntiau bwled uchod.

**Argymhelliad 16: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai heddluoedd ddiweddaru a gweithredu eu polisïau a’u canllawiau ar gyfer**

**digwyddiadau nad ydynt yn droseddau casineb i ddarparu cyfeiriad clir i swyddogion a staff ar gyfer asesu, cofnodi ac ymateb i'r digwyddiadau hyn.**

Mae arweinydd troseddau casineb newydd wedi'i benodi o fewn yr Heddlu i arwain y gwaith hwn. Mae polisi a chanllawiau'r Heddlu eisoes wedi'u diweddaru, gyda chopi drafft yn disgwyl cael ei gymeradwyo drwy'r strwythur llywodraethu.

**Argymhelliad 17: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai heddluoedd sicrhau bod eu prosesau cofnodi ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb yn eu caniatáu i ddadansoddi data sy'n ymwneud â throseddau casineb a throseddau nad ydynt yn droseddau casineb.**

Mae'r polisi Heddlu a ddiweddarwyd y soniwyd amdano'n cyflwyno prosesau ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb sy'n caniatáu rhannu troseddau casineb a digwyddiadau sydd ddim yn droseddau casineb. Mae hyn yn caniatáu i'r Heddlu gymryd camau gweithredu penodol mewn perthynas â chofnodi drwgdybyn/gwrthrych yn gywir a dadansoddi troseddau a digwyddiadau. Bydd hyn yn sicrhau y bydd dadansoddi cywir o'r data hwn yn bosibl wrth fynd ymlaen.

**Argymhelliad 18: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod gan eu heddlu brosesau effeithiol ac effeithlon ar gyfer asesu ac adolygu digwyddiadau casineb.**

Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd canllawiau ar gyfer swyddogion a staff sydd â rhan mewn asesu ac adolygu digwyddiadau'n cael eu darparu ar y mater hwn. Bydd gan arweinydd newydd yr Heddlu ar gyfer troseddau casineb rhan yn hyn. Mae digwyddiadau a throseddau casineb ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd rheoli dyddiol lleol.

**Argymhelliad 19: Erbyn 31 Gorffennaf 2025, dylai'r Coleg Plismona weithio gyda heddluoedd i werthuso a gwella effeithiolrwydd hyfforddiant ar ddigwyddiadau nad ydynt yn droseddau casineb. Dylai hyn gynnwys ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o ddarparu'r hyfforddiant hwn.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod hyn wedi'i nodi yn y polisi a'r canllawiau newydd. Bydd y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu erbyn y terfyn amser uchod.

**Argymhelliad 20: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai heddluoedd sicrhau eu bod nhw'n diffinio'r gofynion ar gyfer cofnodi data personol yn glir mewn polisïau ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn droseddau casineb. Os yw ymagwedd yr heddlu'n wahanol i "Digwyddiadau Nad Ydynt yn Droseddau Casineb: y Cod Ymarfer ar Gofnodi a Chadw Data Personol', dylai'r heddlu gofnodi'r rheswm am hyn.**

Mae'r polisi Heddlu wedi'i ddiweddaru y soniwyd amdano'n cyflwyno prosesau ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb sy'n caniatáu i droseddau casineb a digwyddiadau nad ydynt yn droseddau casineb gael eu rhannu. Mae hyn yn caniatáu i'r Heddlu gymryd camau penodol mewn perthynas â chofnodi drwgdybyn/gwrthrych yn gywir a dadansoddi digwyddiadau a throseddau.

**Argymhelliad 21: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu gyhoeddi cylch gorchwyl cenedlaethol a strwythur llywodraethu ar gyfer rhwydweithiau staff. Dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a heddluoedd dynnu arian yn ôl wrth unrhyw rwydwaith staff sydd ddim yn cydymffurfio â'r trefniadau llywodraethu hyn. Dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu hefyd gyhoeddi canllawiau i heddluoedd i sicrhau bod rhwydweithiau lleol a chenedlaethol yn gweithredu mewn modd cyson a chydlynol.**

Mae rhwydweithiau staff wedi'u sefydlu o fewn yr Heddlu. Mae llywodraethu effeithiol mewn grym drwy'r Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg. Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd yr Heddlu'n adolygu yn unol â'r cylch gorchwyl cenedlaethol unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu defnyddio'n briodol.

**Argymhelliad 22: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai pob heddlu sicrhau bod ganddynt broses asesu gadarn ar gyfer pennu arian a rhoi cymorth i'w rhwydweithiau. Dylent flaenoriaethu arian a chymorth yn seiliedig ar angen lleol.**

Mae llywodraethu effeithiol o rwydweithiau staff yn bodoli drwy'r Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg. Yr wyf wedi fy sicrhau y cynhelir prosesau ar gyfer pennu arian a chymorth i'r rhwydweithiau drwy'r strwythur hwn.

Mae’r holl argymhellion uchod wedi’u pennu gan yr Arolygydd Richard Janas i arweinwyr yr Heddlu a chynhelir goruchwyliaeth drwy fyrddau llywodraethu a arweinir gan Brif Swyddogion.

Rwy’n ddiolchgar am gyhoeddiad yr argymhellion hyn. Bydd fy nhîm a minnau’n parhau i weithio’n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch AHGTAEF yn cael ei weithredu er mwyn gwella’r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr ardal Dyfed-Powys.